# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Y Cynghorydd D M Hughes** **Ward: Cwm Ogwr**

**Plaid: Annibynnol**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Mai 2024**. Fe'i darperir er gwybodaeth i bob etholwr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Rôl a Chyfrifoldebau**

Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau o fewn y Cyngor eleni, gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor. Rwyf wedi eistedd ar y Pwyllgor Rheoli Datblygu, Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 1 a 2 (Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol) a Chydraddoldeb y Cabinet ynghyd â chyfarfodydd y Cyngor Llawn.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi mynegi 112 o ymholiadau etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill y mae trigolion wedi gofyn i mi eu helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl, rwyf wedi mynychu Gweithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward yn cael ei chynnal.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, fy nghyfrifoldebau a'm gweithgareddau ar gael drwy ddilyn y ddolen hon:

Y Cyng. Della Hughes

**Gweithgarwch yn yr Etholaeth**

Rwyf wedi parhau i gryfhau cysylltiadau gyda grwpiau a mudiadau lleol.

Mae cyfathrebu â phreswylwyr yn allweddol ac rwyf wedi cynnal sesiynau galw heibio rheolaidd yn OVLC a Chlwb Bowlio Bro Ogwr, wedi cynhyrchu cylchlythyr ac wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Rwyf wedi gweithio ac yn parhau i weithio'n agos gyda Bysiau Gwell ar gyfer Cwm Ogwr o ran gwasanaethau bysiau.

Mae'r grŵp amgylcheddol Balchder Dyffryn Ogwr yn gweithio'n galed iawn yn ein dyffryn, ac yr wyf wedi cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ynghylch llawer o faterion amgylcheddol.

Rydw i wedi cael fy mhenodi'n Llywodraethwr AALl yn Ysgol Gynradd Cwm Ogwr ac rydw i'n Is-gadeirydd. Rwy'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r Corff Llywodraethu sydd newydd ei ffurfio a pharhau i gefnogi'r ysgol ar eu taith i wella'r ysgol.

Yr wyf wedi mynychu llawer o ddigwyddiadau lleol.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydw i wedi bod yn trafod adfywio ardal Coedlan y Parc gyda phartïon sydd â diddordeb ac rwy'n edrych ymlaen at weld yr ardal yn cael ei gwella ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rwyf wedi estyn gwahoddiad i fynychu fy sesiynau galw heibio i'r Cynghorwyr Cymuned sy'n cynrychioli ward Cwm Ogwr, er mwyn i drigolion allu siarad â'u cynrychiolwyr o Gyngor Cymuned Cwm Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**Gweithgareddau/Materion Eraill**

Fis Tachwedd diwethaf (ar ôl ychydig fisoedd o waith caled) fe wnes i, ynghyd ag aelodau eraill o'r gymuned, agor y 'Drop and Shop Cymunedol' ar Stryd Ogwy, Nant-y-moel.

Cafodd y syniad hwn ei gyflwyno i mi gan breswylwyr yn dilyn rhai prosiectau lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu yn yr ysgol a 'Chyfnewid Cotiau' llwyddiannus iawn.

Y nod yw lleihau gwastraff a darparu eitemau cost isel yn lleol. Mae'r siop yn cael ei chefnogi'n dda gan y gymuned ac mae 12 o wirfoddolwyr o bob rhan o ardal Cwm Ogwr.

**Y Cynghorydd D M Hughes Dyddiad: 25/07/2024**